Ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â pholisi interim y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar gyfer erlynyddion parthed hunanladdiad cynorthwyedig

Y broses ymgynghori

Pwrpas yr ymgynghoriad yma yw ceisio cael ystod eang o safbwyntiau ynghyd ynglŷn â pholisi interim y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar hunanladdiad cynorthwyedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ar Orffennaf 30, 2009, rhoddodd Pwyllgor Apêl Tŷ'r Arglwyddi ei ddyfarniad yn achos *R (ar gais Purdy) v Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus*. Gofynnodd Arglwyddi'r Gyfraith i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i gyhoeddi polisi trosedd-benodol yn nodi'r ffeithiau a'r amgylchiadau bydd yn cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu p'un ai a ddylid cydsynio i ddechrau erlyniad o dan adran 2(1) o'r Ddeddf Hunanladdiad 1961.

Cyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar yr un dydd ei fod yn bwriadu cyhoeddi polisi interim cyn diwedd mis Medi 2009, a lansio ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Unwaith i'r Cyfarwyddwr ystyried yr holl ymatebion, bydd yn penderfynu a ddylid gwella'r polisi, ac os felly, sut ddylid ei wneud.

Croesawn eich sylwadau.

Cwestiynau ar gyfer ymgynghori

Fe'ch gwahoddir i roi sylwadau ar 9 cwestiwn yn enwedig a amlinellir yn y Papur Ymgynghori a nodwyd gennym, yn cynnwys cwestiwn olaf sydd yn gofyn am unrhyw sylwadau y dymunai pobl eu gwneud.

Lawrlwythwch y fersiwn Word o'r polisi interim y gellir ei gwblhau ai ddychwelyd i ni drwy e-bost:

http://www.cps.gov.uk/consultations/as_consultation.doc

Os ydych yn bwriadu ateb drwy e-bost, byddwn yn ddiolchgar pe na baech yn atodi unrhyw ddogfen arall i'r papur ymgynghori. Ceir cyfyngiadau ar feintiau'r dogfennau rydym yn gallu eu derbyn ac mae unrhyw ddogfen ymgynghori wedi ei gwblhau sydd ag atodiad mewn perygl o beidio cyrraedd. Os ydych yn dymuno danfon atodiad atom, byddwch cystal ag ysgrifennu atom ar wahân i'r cyfeiriad e-bost yn y polisi hwn.

Os ydych yn defnyddio rhaglen meddalwedd arbennig i ddarllen y Ddogfen Ymgynghori ac yn ei chael hi'n anodd ei darllen, byddwch cystal â dod i gyswllt â Thîm Polisi Hunan Laddiad Cynorthwyedig Gwasanaeth Erlyn y Goron y gwelir eu manylion cyswllt yn yr adran Sut i Ymateb.

Os hoffech chi ddychwelyd eich atebion i'r cwestiynau ar gefn y Ddogfen Ymgynghori drwy'r post, byddwch cystal â lawrlwytho'r fersiwn PDF o'r polisi interim: http://www.cps.gov.uk/consultations/as_consultation.pdf

Darllenwch y polisi erlyn interim ar hunanladdiad cynorthwyedig heb gwestiynau'r ymgynghoriad mewn fformat HTML:
http://www.cps.gov.uk/consultations/as_policy.html

Lawrlwythwch y polisi erlyn interim ar hunanladdiad cynorthwyedig heb gwestiynau'r ymgynghoriad mewn fformat PDF:
http://www.cps.gov.uk/consultations/as_policy.pdf

Sut i ymateb

Mae ymatebion ysgrifenedig ac electronig i'r ymgynghoriad yn dderbyniol.

Byddwch cystal â bod yn ymwybodol os byddwch yn cwblhau a dychwelyd y ddogfen hon drwy gyfrwng e-bost, byddwch yn danfon eich ymateb dros y rhyngrwyd agored. Os fyddai'n well gyda chi, byddwch cystal â chwblhau a dychwelyd y fersiwn PDF i'r cyfeiriad post a roddir isod.

Byddwch cystal â chynnwys eich enw, sefydliad (os yn berthnasol), cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

Dyddiad Cau ar gyfer ymatebion: **Rhagfyr 16, 2009**

Gellir danfon ymatebion drwy'r post at:

Y Tîm Polisi Hunanladdiad Cymorthedig
Pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron - 6ed Llawr
50 Ludgate Hill
London
EC4M 7EX

Neu drwy e-bost at: assistedsuicide.consultation@cps.gsi.gov.uk

Fformatau Amgen

Os oes angen copi o'r Papur Ymgynghori hwn mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft, clywedol neu brint bras, byddwch cystal â dod i gyswllt â'r cyfeiriad post uchod.

Y Camau Nesaf

Byddwn yn ystyried pob ymateb unigol a gawn. Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

Ymatebion: Cyfrinachedd ac ymwrthodiad

Fe all yr wybodaeth a ddanfonwch atom ael ei roi i gydweithwyr o fewn Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Llywodraeth neu asiantaethau perthynol. Hefyd, gall gwybodaeth a geir yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei

gyhoeddi neu ei ddatgelu yn unol â'r mynediad at wybodaeth deddfwriaeth gan gynnwys y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth fyddwch chi'n ei roi i gael ei drin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol fod yna god ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hi ac sydd yn ymwneud â, ymhlith pethau eraill, gyda rhwymedigaethau cyfrinachedd. Gyda hyn mewn golwg, byddai'n gymorth pe baech yn gallu egluro'n fras i ni pam eich bod yn ystyried fod yr wybodaeth a roddwyd gennych am fod yn gyfrinachol. Pe byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd o allu cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni fydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich sustem Technoleg gwybodaeth yn cael ei ystyried i fod yn orfodol ar Wasanaeth Erlyn y Goron.

Byddwch cystal â sicrhau fod eich ymateb wedi ei farcio'n glir os ydych yn dymuno am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol. Caiff ymatebion cyfrinachol eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol o'r niferoedd o sylwadau a dderbyniwyd a safbwyntiau a fynegwyd. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn prosesu'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data 1998 -golyga hyn na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd parti yn y rhan fwyaf o achosion.

Y saith maen prawf ymgynghori

Mae'r Adran Arloesi Busnes a Sgiliau yn gosod saith maen prawf ymgynghori ar gyfer rhedeg ymgynghoriadau cyhoeddus effeithiol. Caiff y meini prawf allweddol yma eu hailadrodd isod.

Maen Prawf 1 - Pryd i ymgynghori

Dylai ymgynghoriad ffurfiol ddigwydd ar adeg pan fod yna le i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.

Maen Prawf 2 - Cyfnod yr ymarferion ymgynghori

Fel arfer, dylai ymgynghoriadau bara am o leiaf 12 wythnos gydag ystyriaeth yn cael ei roi i gyfnodau amser hirach lle yw'n ymarferol a synhwyrol.

Maen Prawf 3 - Eglurder cwmpas ac effaith

Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, cwmpas i ddylanwadu a'r costau a'r budd disgwyliedig sydd yn gysylltiedig â'r argymhellion.

Maen Prawf 4 - Hygyrchedd ymarferion ymgynghori

Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i, ac wedi ei anelu'n glir at, y bobl hynny y bwriedir eu cyrraedd yn yr ymarfer hwnnw.

Maen Prawf 5 - Baich yr ymgynghoriad

Os yw ymgynghoriadau i fod yn effeithiol a sicrhau ymglymiad i'r broses gan y sawl a ymgynghorir, mae'n hanfodol i gadw baich yr ymgynghoriad i leiafswm.

Maen Prawf 6 - Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori

Dylai ymarferion ymgynghori gael eu dadansoddi'n ofalus a dylai adborth clir gael ei roi i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

Maen Prawf 7 - Y gallu i ymgynghori

Dylai swyddogion sydd yn rhedeg ymgynghoriadau geisio am gyfarwyddyd ynglŷn â sut i redeg ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu o'r profiad.